**CABINET**

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 18 Rhagfyr 2012 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Datblygu Economaidd; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, Aelod Arweiniol Twristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid; Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad, David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau, ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg

Sylwedyddion: Y Cynghorwyr Ray Bartley, Meirick Davies, Richard Davies ac Arwel Roberts

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cwsmeriaid (HW), Moderneiddio a Lles (SE); Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW); Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM); Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol (PMc); Rheolwr Prosiect (NR); Rheolwr Tîm Dylunio ac Adeiladu (SE), Rheolwr Caffael Strategol (AS), a Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

**1 YMDDIHEURIADAU**

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni chyflwynwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol neu ragfarnus.

**3 MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2012.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2012 fel cofnod cywir a’u llofnodi gan yr Arweinydd.*

**5 CYFLAWNI SAFONAU ANSAWDD TAI CYMRU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Irving yr adroddiad yn diweddaru’r Cabinet at y cynnydd o ran cyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru. Hysbyswyd yr Aelodau o’r rhaglen adnewyddu tai ar gyfer Stoc Tai’r Cyngor; y costau a achoswyd ar gyfer contractau 6, 7 ac 8, a chawsant drosolwg o foddhad cwsmeriaid a manteision

adfywio ehangach o ymgymryd â'r gwaith hwnnw. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dweud eu bod yn fodlon gyda'r cynnydd hyd yma, a'r dyddiad cwblhau a ragwelwyd ar gyfer y rhaglen oedd Rhagfyr 2013.

Cymerodd yr Aelodau y cyfle i holi'r Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol, a ymatebodd fel a ganlyn –

- Roedd adborth rhagarweiniol o'r arolwg cyflwr stoc yn ddiweddar yn awgrymu y gellid cynnwys costau yn y tybiaethau gwreiddiol a gynhwyswyd yn y Cynllun Busnes Stoc Tai
- Byddai mwy o hyblygrwydd yn y dyfodol i wneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl leol a busnesau lleol wrth ymgymryd â gwaith ailwampio tai
- Byddai'r holl eiddo wedi cyrraedd safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2013 ac eithrio nifer fechan o dai sydd wedi eu gadael allan gan fod tenantiaid wedi gwrthod mynediad i wneud y gwaith atgyweirio anghenrheidiol
- Pwysleisio'r berthynas gyfreithiol a chytundebol rhwng landlord a thenant o ran mynediad i eiddo
- Cadarnhau bod Sir Ddinbych yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau eraill o ran cydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni'r Safonau a bod contractau wedi eu defnyddio i gefnogi is-gontractwyr lleol a chadwyni cyflenwi yn Sir Ddinbych. Cymerodd yr Arweinydd y cyfle hefyd i longyfarch y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol ar ei benodiad i Dasglu Gweinidogol i gynghori ar opsiynau i alluogi i awdurdodau eraill Cymru gyflawni'r Safonau Ansawdd Tai Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod y cynnydd o ran cyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru yn stoc tai ar rent y Cyngor.*

## 6 YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN GWARIANT CEFNOGI POBL A NEWID YN Y STRATEGAETH CEFNOGI POBL AR GYFER 2013 I 2014

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gytuno â'r newidiadau yn Strategaeth a Chynllun Gwario Cefnogi Pobl ar gyfer 2013-14 cyn cyflwyno cynlluniau i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Tra bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gynllun gwario 3 blynedd, bwriad Sir Ddinbych oedd bod yn glir ar hyn o bryd ynglŷn â chynllun blwyddyn a dweud bod angen mwy o amser i ddatblygu cynigion ar gyfer blynyddoedd i ddod. Credid y byddai awdurdodau eraill Gogledd Cymru yn gwneud yr un peth.

Roedd Cefnogi Pobl yn rhaglen arwyddocaol yn rhoi gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai i ystod eang o grwpiau agored i niwed. Roedd manylion newid gweinyddiaeth y rhaglen Cefnogi Pobl wedi eu darparu ynghyd â'r goblygiadau i Sir Ddinbych a'r gostyngiadau sylweddol mewn cyllid gyda'r effaith debygol ar wasanaethau gofal cymdeithasol oedolion. Roedd y gostyngiad tebygol yn y grant Cefnogi Pobl dros y pum mlynedd nesaf oddeutu £1.5m. Tynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles sylw'r aelodau at y newidiadau penodol yn y Strategaeth Cefnogi Pobl ar gyfer 2013/14 fel y manylwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet y newidiadau yn y Strategeth Cefnogi Pobl a'r cynigion i reoli'r gostyngiad yn y cyllid grant. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles bod y gwasanaeth Cefnogi Pobl yn darparu cymorth tai ac felly nid oedd yn ffurfio rhan o gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol. Ymhelaethodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau ar y cronfeydd wrth gefn penodol a oedd wedi eu neilltuo i liniaru peth o effaith y gostyngiad. Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan yr Arweinydd ynglŷn â diffiyg trefniadau llywodraethu clir, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles bod y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, sy'n gyfrifol am benderfyniadau, hyd yma wedi gweithredu yn ôl consenswS ac felly nid oedd eglurder trefniadau llywodraethu eto wedi eu profi. Ychwanegodd y Cynghorydd Feeley bod y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol wedi cytuno cyfarfod yn rheolaidd i roddi eglurder pwrpas ac ystyried sut byddai awdurdodau'n gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno'r rhaglen.

***PENDERFYNWYD** cytuno gyda'r newidiadau i Strategaeth a Chynllun Gwario Cefnogi Pobl ar gyfer 2013-14 i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.*

**7 GWASANAETH CAFFAEL CENEDLAETHOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo ymuno â Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol newydd, yn destun amodau, gydag ymrwymiad pum mlynedd i ddechrau. Cwblhawyd yr achos busnes i greu Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a gwahoddwyd holl gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu ymrwymiad ffurfiol i ymuno â'r gwasanaeth. Roedd copi o'r llythyr a'r ffurflen i'w chwblhau ynghlwm wrth yr adroddiad.

Rhoddwyd hanes cefndir i'r aelodau ar greu Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i ymgymryd â gwaith caffael ar gyfer rhwng 20% a 30% o gyfanswm y gwariant yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Roedd manylion lefel gwariant; buddsoddiad i sefydlu'r gwasanaeth; arbedion tebygol i lywodraeth leol, a'r sylfaen ar gyfer ymrwymiad i'r gwasanaeth wedi eu rhoi yn yr adroddiad.

Tra'n cefnogi'r achos busnes mewn egwyddor pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd cefnogi'r economi lleol a gofyn am sicrhad na fyddai ymuno â'r Gwasanaeth yn cael effaith negyddol ar funesau lleol. Ailadroddodd y swyddogion y byddai'r Gwasanaeth ond yn cyfrif am ryw 20% - 30% o'r gwariant ar gaffael yn cynnwys categorïau penodol a oedd yn addas ar gyfer caffael cenedlaethol mawr nad oedd y rhan fwyaf o awdurdodau yn ei brynu'n lleol beth bynnag. Roedd mecanwaith eithrio os nad oedd awdurdod eisiau cymryd rhan mewn contract penodol oherwydd effeithiau lleol neu os nad oedd y contract yn rhoi arbedion effeithlonrwydd i'r awdurdod ac y gellid gwneud achos ar sail hynny. Byddai'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol hefyd yn cymryd i ystyriaeth Bolisi Caffael Cymru a manteision i'r economi lleol.

Trafodwyd materion eraill gyda'r Cynghorydd Thompson-Hill a'r swyddogion, a ymatebodd fel a ganlyn –

- Ar ôl dadansoddiad rhagarweiniol, tybiwyd y byddai arbedion i Sir Ddinbych rhwng £250k - £750k

- Roedd cytundebau fframwaith yn caniatáu i'r awdurdod adael y rhan fwyaf o gontractau presennol heb gosb i ganiatáu trosglwyddiad llyfn i'r trefniadau newydd
- Cydnabod y byddai elfen o dyndra mewn perthynas â rhai contractau gyda threfniadau cenedlaethol a rhanbarthol ond y byddai'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn caniatáu cyfleoedd pellach i gael arbedion
- Gan fod cytundeb cenedlaethol eisoes yn bodoli ar gyfer goleuadau stryd, ni fyddai dymuniad i ddyblygu hynny dan y trefniant newydd
- Roedd ymrwymiad i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar y sail y byddai'r gwasanaeth yn cael ei ariannu'n ganolog gan Lywodraeth Cymru am y ddwy flynedd gyntaf ac yna rhagwelwyd y byddai'n ariannu ei hun
- Gellid ailystyried aelodaeth o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn y dyfodol os nad oedd yn cynhyrchu'r arbedion dymunol i Sir Ddinbych
- Dylai fod yn bosibl monitro effaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol o ryw chwech i ddeuddeg mis ymlaen.

Roedd y Prif Weithredwr yn cymeradwyo'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a phwysleisiodd bwysigrwydd monitro i asesu ei effeithiolrwydd a'r manteision i Sir Ddinbych. Roedd lefel uchel o ymwybyddiaeth o ran cydbwyso cefnogaeth i fusnesau lleol a chael arbedion. Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr argymhelliad yn yr adroddiad a newid yr adroddiad i ddisodli 4.28 gyda 4.27 ac fe –

***BENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cefnogi'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ac aelodaeth Sir Ddinbych am gyfnod o bum mlynedd yn ddarostyngedig i'r amodau yn 4.27 yr adroddiad.*

**8 ADRODDIAD CYLLID 2012/13**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn manylu'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol a gytunwyd. Darparodd grynodeb byr o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- Rhagwelwyd tanwariant o £344k ar draws cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol, ac roedd y rhagolygon i ysgolion yn symudiad cadarnhaol ar falansau o £121k
- Cyflawnwyd arbedion a gytunwyd o £2.673m (79%) gyda £702k (21%) ar y gweill a £25k (1%) yn cael ei ohirio tan y flwyddyn nesaf
- Pwysleisio'r prif amrywiadau yn y cyllidebau neu dargedau arbed a manylion cyllidebau gwasanaeth unigol
- Diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Eryl Williams at y Gyllideb Moderneiddio Addysg a Gofal Cwsmeriaid ac esboniodd bod y tanwariant o £23k yn ymwneud â'r elfen Gofal Cwsmeriaid. Gan y gellid camddehongli'r data yn hawdd gofynnodd am fwy o eglurder yn y dyfodol mewn adroddiadau ar feysydd gwasanaeth unigol. Tynnodd y Cynghorydd Williams sylw'r aelodau hefyd at y Gyllideb Gwella Ysgolion a Chynhwysiant, ac adroddodd ar y newidiadau arwyddocaol i fformiwla ariannu ysolion a oedd wedi cael cefnogaeth y Fforwm Cyllidebau Ysgolion. Roedd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau hefyd wedi craffu ar a derbyn y cynigion.

Gobeithiai'r Cynghorydd Arwel Roberts na fyddai unrhyw ysgol ar ei cholled o ganlyniad i'r fformiwla ariannu newydd ac ymatebodd y Cynghorydd Williams bod yr ysgolion wedi cytuno â'r newidiadau yn y fformiwla.

Cymerodd y Cabinet a'r aelodau lleyg y cyfle i holi cwestiynau a thrafodwyd nifer o faterion fel a ganlyn -

- Pwysleisiodd y Cynghorydd Huw Jones yr anhawster wrth ddehonglu data cyllidebol ar gyfer prosiectau mawrion yn pontio nifer o flynyddoedd a chytunodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau roddi mwy o eglurder mewn adroddiadau yn y dyfodol
- Roedd arbedion cyllidebol adrannol fel canran o gyllidebau net 2010/11 wedi eu cynnwys yn yr adroddiad (Atodiad 3) ar gais yr Arweinydd, a ysgogodd drafodaeth ar fethodolegau'r gorffennol ar ddyrannu arbedion effeithlonrwydd ledled yr awdurdod, a'r angen am ddull gwahanol o ddelio ag effeithlonrwydd yn y dyfodol, ac i reoli clustnodi ac amddiffyn cyllidebau penodol.
- Roedd y gost o ymateb i'r llifogydd yn cael ei weithio allan ar hyn o bryd a byddai cais yn cael ei wneud i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â hynny. Roed cyllid o'r gyllideb wrth gefn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ac ni fyddai costau'n cael eu codi ar y gwasanaethau dan sylw. Cydnabuwyd y byddai effaith y llifogydd yn parhau ac y byddai angen llawer o gefnogaeth yn y dyfodol, a byddai costau'n cael eu holrhain.
- Nododd y Cynghorydd Eryl Williams y twf mewn rhai meysydd gwasanaeth a gostyngiadau mewn eraill a gofynnodd am sicrhad mewn perthynas â hynny. Ymatebodd y Prif Weithredwr bod y ffigurau yn rhoi sicrhad bod arbedion wedi eu cyflawni yn y meysydd priodol a bod twf a gostyngiad mewn meysydd gwasanaeth yn anochel wrth i flaenoriaethau'r cyngor newid. Pwysleisiodd yr angen am gapasiti i gyflawni'r cynllun corfforaethol ac i reoli'r newidiadau mawrion a'r prosiectau a fyddai'n deillio o'r twf yn y meysydd hynny
- Roedd effaith y newidiadau i'r Dreth Gyngor wedi ei thrafod mewn gweithdy ar y gyllideb i aelodau yn ddiweddar, ac roedd elw is wedi ei dybio ar gyfer blynyddoedd i ddod, ac wedi ei gynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol
- Rhoddwyd esboniad ar gronfa wrth gefn Cefnogi Pobl a oedd wedi ei chronni o danwariant bwriadol i'w defnyddio mewn blynyddoedd i ddod.

Ar ôl y drafodaeth, cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr argmhelliad ac fe –

***BENDERFYNWYD*** *cydnabod y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd.*

## 9 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Flaenraglen Waith y Cabinet i'w hystyried. Dywedodd y Cynghorydd David Smith y byddai adroddiad ar Adolygiad Ysgolion Rhuthun yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym Mai 2013.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod Blaenraglen Waith y Cabinet*.

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y diffinnir ym Mharagraffau 13, 14 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 10 DATBLYGIAD OCEAN PLAZA, Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn am benderfyniad gan y Cabinet mewn perthynas ag opsiwn i brynu tir yn Quay Street a Westbourne Avenue, y Rhyl. Amlygodd newidiadau a wnaed i'r adroddiad gwreiddiol ar ôl cyfarfod gyda'r datblygwr a enwyd yn ystod yr wythnos flaenorol a thynnodd sylw'r aelodau at yr opsiynau i'w hystyried a'r goblygiadau yn deillio ohonynt.

Manylodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol y cynnydd a wnaed hyd yma o ran delio â materion a oedd ar ôl gyda'r datblygiad cymhleth ac ymatebodd i gwestiynau'r aelodau ar haeddiant rhoi'r opsiwn fel yr argymhellwyd. Gofynnodd y Cynghorydd Hugh Irving am sicrhad na fyddai rhoi'r opsiwn yn arwain at adael y tir yn ddiffaith a dywedodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol y byddai'r cymal cyfyngiad amser yn helpu delio gyda hynny a'i fod wedi ei gytuno gyda'r datblygwr. Hysbyswyd y Cabinet hefyd bod Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl wedi cael trosolwg lefel uchel o'r opsiynau ac yn cefnogi'r argymhellion ar y ffordd ymlaen.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*

*(a) yn rhoi'r opsiwn i'r datblygwr a enwyd yn yr adroddiad i brynu'r buddiant rhyddfraint ar gyfer y safleoedd a nodwyd am gyfnod cyfyngedig o 18 mis i alluogi i'r datblygwr gyflwyno cais cynllunio newydd o fewn 6 mis o roddi'r opsiwn ac i sicrhau ymrwymiad deiliad i'r datblygiad o fewn gweddill y cyfnod cyfyngiad amser;*

*(b) cymeradwyo penodi'r Prisiwr Dosbarth i gael pris ar y safle neu rannau ohono yn adlewyrchu cynlluniau presennol ac i'r dyfodol a chyfyngiadau ffisegol, a*

*(c) bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn cael awdurdod dirprwyedig i ddatblygu cerrig milltir allweddol gyda'r datblygwyr a enwyd i adolygu cynnydd ar y cynllun, gan adrodd yn ôl i'r Cabinet bob chwe mis.*

## 11 GWASANAETHU CYFARPAR NWY STOC TAI'R CYNGOR

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Irving yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract gwasanaethu, trwsio a chynnal a chadw ney newidd ar gyfer Stoc Tai'r Cyngor. Roedd adroddiad manwl gan ymgynghorwyr arbenigol ynghlwm wrth yr adroddiad.

Er mwyn cael contract manyleb uchel, comisiynwyd ymgynghorydd. Darparwyd manylion y prosiect ymgynghorol yn yr adroddiad, a oedd yn cynnwys datblygu'r fanyleb, tendro'r contract ac arfarnu contractau. Roedd y ffactorau gwahaniaethu allweddol a oedd wedi sicrhau'r lle cyntaf i'r contractwr a ffefrir hefyd wedi eu hamlygu.

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad, gan roddi sylw penodol i arfarniad y tendrau a'r canlyniadau ac roeddynt yn falch o weld tenantiaid yn cymryd rhan yn y broses ddethol, gan ddangos gwerth am arian a boddhad cwsmeriaid. Cyfeiriodd y Cynghorydd Huw Jones at ebost gan y Cynghorydd Martyn Holland ar gyflenwyr nwy a chadarnhaodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol bod y mater yn cael ei drin yn uniongyrchol gyda'r Cynghorydd Holland y tu allan i'r cyfarfod. Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies ar faterion yr iaith Gymraeg, dywedodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol y byddai is-gontractwyr lleol yn cael eu comisiynu i wneud y gwaith, a fyddai'n ffurfio cam nesaf y broses.

***PENDERFYNWYD*** *bod y contract tair blynedd (a dwy) ar gyfer gwasanaethu, trwsio a chynnal a chadw systemau gwresogi nwy Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei ddyfarnu i'r contracwr a ffefrir fel y manylwyd yn yr adroddiad.*

## 12 CAFFAEL GWAITH ADEILADU YNG NGOGLEDD CYMRU: STRATEGAETH GAFFAEL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i symud ymlaen â'r prosiect caffael i'r cyfnod gweithredu a sefydlu fframwaith ar gyfer prosiectau adeiladu ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru. Roedd yn amod cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif bod awdurdodau yn ymuno â'r drefn honno er mwyn eu galluogi i ddenu cyllid grant.

Y nod oedd sefydlu cytundeb fframwaith rhanbarthol ar gyfer gwaith adeiladu mawr dros drothwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer gwaith adeiladu (gwerth dros £4.35m) a gwella arferion caffael gwaith adeiladu presennol ar gyfer prosiectau islaw'r trothwy hwnnw. Ymhelaethodd y Cynghorydd Thompson-Hill ar fanylion y prosiect, agweddau gweithredol a chyfranogiad asiantaethau eraill sector cyhoeddus ynghyd â'r amserlen i weithredu hyn. Nododd bod y fframwaith yn anelu at wneud y mwyaf o fanteison y prosiectau i'r gymuned leol a chynnal datblygiad economaidd, ac ymhelaethodd ar ystyriaethau allweddol a geisiwyd trwy gynllun manteision cymunedol a gyflwynwyd gan gontractwyr. Roedd y Cabinet yn falch o nodi'r manteision i'r gymuned leol a'r ymgynghori helaeth a ymgymerwyd gyda'r diwydiant adeiladu lleol er mwyn bwydo gwybodaeth i'r strategaeth a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fusnesau lleol.

Cymerodd y Cynghorydd Thompson-Hill y cyfle i ddiolch i Nina Ruddle, Rheolwr Prosiect a Sion Evans, Rheolwr Tîm Dylunio ac Adeilad am eu gwaith caled ar y prosiect ac fe –

***BENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r prosiect i fynd ymlaen i'r cam gweithredu i sefydlu fframwaith ar gyfer prosiectau dros £4.35m a gwella arferion caffael gwaith adeiladu presennol islaw'r lefel honno ar draws y rhanbarth.*

## 13 LLETY Â CHYMORTH A LLOCHES NOS TRAWS-FFINIOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cyd-gomisiynu gyda Chyngor Sir y Fflint wasanaeth traws-ffiniol Llety â Chymorth a Lloches Nos er mwyn gwella gwerth am arian.

Ymhelaethodd y Cynghorydd Feeley ar y prosiect Llety â Chymorth a'r lloches nos mewn argyfwng ar gyfer pobl ifanc ddigartref a rhoddodd fanylion pellach ar y trefniadau cyd-gaffael arfaethedig rhwng Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Rhoddwyd hefyd y rhesymeg y tu ôl i'r argymhelliad i eithrio'r cyd-gontract o'r gofyniad i dendro. Dywedodd bod y prosiect i leoli pobl ifanc agored i niwed gyda theuluoedd er mwyn eu cefnogi yn flaengaredd gan Sir Ddinbych a oedd hefyd wedi ei mabwysiadu gan Sir y Fflint. Cefnogodd y Cabinet yr agwedd a oedd yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i bob ifanc sy'n cael eu gosod mewn llety argyfwng, ac fe –

***BENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*

*(a) yn cymeradwyo ymestyn y contract presennol gyda Local Solutions ar gyfer gwasanaeth Llety â Chymorth Sir Ddinbych hyd at 31ain Mawrth 2013 i roddi amser i gyd-gomisiynu'r gwasanaeth hwn gyda Chyngor Sir y Fflint;*

*(b) yn cymeradwyo sefydlu trefniadau cyd-gaffael rhwng Cynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint i gomisiynu gwasanaeth traws-ffiniol Llety â Chymorth a Lloches Nos;*

*(c) yn eithrio'r cyd-gontract ar gyfer y gwasanaeth Llety â Chymorth a Lloches Nos o'r gofyniad i dendro, a*

*(d) yn dyfarnu'r contract ar gyfer y gwasanaeth hwn i Local Solutions, darparwr presennol gwasanaeth Llety â Chymorth Sir Ddinbych.*

## 14 STRWYTHURAU GWASANAETH: GWASANAETH PRIFFYRDD A SEILWAITH

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r opsiwn a ffefrir ar ddyfodol y gwasanaeth Priffyrdd a Seilwaith yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Roedd yr adroddiad wedi ei gynhyrchu mewn ymateb i benderfyniad y Cabinet ar 23 Hydref bod angen ystyried cyfleoedd eraill er mwyn rhesymoli gwaith rheoli, lleihau costau a gwella gwasanaethau.

Tynnwyd sylw'r aelodau at yr adolygiad o'r opsiynau a oedd ar gael, a oedd wedi eu manylu yn yr adroddiad a'u sgorio o gymharu â meini prawf manteision. Roedd yr argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ar y canfyddiadau hynny. Dywedodd y Cynghorydd Smith bod yr adroddiad wedi ei graffu gan y Pwyllgor Craffu

Partneriaethau a darllennodd allan eu darganfyddiadau hwy, a oedd wedi eu crybwyll yn yr adroddiad.

Wrth ystyried yr adroddiad, ailadroddodd yr aelodau eu siomedigaeth nad oedd integreiddio llawn wedi bod yn bosibl yn yr achos hwn, ond derbyniant y byddai cydweithredu yn digwydd ar raddfa is. Cydnabu bod gwersi wedi eu dysgu o'r broses a fyddai'n galluogi cydweithredu mwy effeithiol yn y dyfodol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod y Cabinet wedi ymuno â dau brosiect cydweithredol pwysig iawn arall yn ystod cyfarfod heddiw a bod prosiectau cydweithredu arwyddocaol eraill ar y gweill. Mewn perthynas â Phriffyrdd a Seilwaith, byddai'r opsiwn a argymhellwyd yn arwain at well gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd ac ymhelaethodd y Prif Weithredwr ar y strwythur dangosol a'r goblygiadau i Sir Ddinbych.

Cymerodd y Cynghorydd David Smith y cyfle i ddiolch i Danielle Edwards, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am ei gwaith caled ac fe –

***BENDERFYNWYD*** *rhoi cymeradwyaeth i –*

*(a) symud ymlaen â datblygu Opsiwn 2b – 'integreiddiad mewnol CSDd gyda pheth cydweithredu ar lefel gwasanaeth penodol';*

*(b) symud ymlaen gyda'r broses o benodi 'Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol' ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, a*

*(c) ymgynghori'n ffurfiol gyda rhanddeiliaid ar y strwythur dangosol ar gyfer Opsiwn 2b.*

Yn agos at ddiwedd y cyfarfod, cymerodd y Cynghorydd Eryl Williams y cyfle i longyfarch Adran Addysg y Cyngor ar y ffaith bod Sir Ddinbych wedi ei rhestru fel y Cyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cyflawni trothwy Lefel 2. Amlygodd hefyd ganlyniadau bandiau ysgol rhagorol Sir Ddinbych gyda'r holl ysgolion uwchradd wedi gweld gwella neu gynnal eu bandiau.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 p.m.